

RHOWCH EICH HYDER YN JEHOFAH

Nodyn i'r siaradwr:

Meithrinwch yng nghalonau'r brodyr hyder dwfn mai ffyrdd Jehofah sydd orau inni. Helpwch y gynulleidfa i weld mewn ffyrdd ymarferol sut y medrant ddangos hyder yn Jehofah. Rhybuddiwch rhag perygl ymddiried ynom ein hunain neu mewn doethineb ddynol, a dangos y canlyniadau trist all ddeillio o hyn. Anogwch bawb i ymddiried yn llwyr yn Jehofah ym mhob agwedd o fywyd

SICRHAU FFAFR AC ENW DA YNG NGOLWG DUW A DYNION (Diar 3:1-4) (5 mun.)

Bydd ystyried Diarhebion 3:1-26 yn dangos inni sut i roi ein hyder yn Jehofah

Gwybodaeth Feiblaidd i'w argraffu ar y galon

Rhaid i bawb wrando ar Jehofah, ein Tad; rhaid i ieuentid wrando ar rieni

Cadw'n meddwl ar ddeddfau Duw

"Ysgrifenna hwy ar lech dy galon" drwy astudio a thrwy siarad am ddeddfau Jehofah fel y dônt yn rhan ohonoch (Salm 40:8; *it-2* 483 ¶5; *w86* 11/1 17-18)

Y wobr fydd "ychwanegu at nifer dy ddyddiau a rhoi blynyddoedd o fywyd"

Jehofah sy'n penderfynu a fyddwn yn byw am byth neu'n marw

Dylai'r rhai sy'n cymhwyso Gair Duw fod yn rhydd rhag cynnen, siarad bychanus, ac yn y blaen, a mwynhau "tangnefedd" (Gal 5:20, 22)

YMDDIRIED YN JEHOFAH A PHAID Â DIBYNNU AR DY DDEALL DY HUN (Diar 3:5-8) (12 mun.)

Beth bynnag 'wnewch chi, cofiwch ddeddfau Duw, ceisiwch ei arweiniad

Ymddiriedwch yn Jehofah, a phrofi fod y Beibl yn arwain pobl yn y ffordd gywir

Ymddiriedwch yn Jehofah drwy astudio'i Air; myfyriwch ar yr hyn mae'n ei ddweud; ufuddhewch i'w orchmynion; gadewch i'w egwyddorion lywio'ch bywyd

"Ymddiried yn Jehofah," fel gwnaeth Iesu (Eseia 8:17, 18) a Paul (2Cor 1:9, 10); peidiwch ag ymddiried mewn dynion (Salm 146:3, 4)

Ymddiriedwch yng nghyfarwyddyd Jehofah drwy gyfrwng ei gyfundrefn, darpariaeth bwyd ysbrydol, penodi goruchwylwyr

Peidiwch byth â gosod eich "deall" chi o bethau, digwyddiadau, trefniadau, i ymryson yn erbyn cyfarwyddyd Jehofah i chi drwy gyfrwng ei Air a'i gyfundrefn

"Cydnabyddia ef" drwy gydnabod Jehofah, gwneud yr hyn a ddywed, canlyn ei ffyrdd

Cydnabyddwch hawl Jehofah, ei awdurdod brenhinol

Byddwch yn ufudd iddo hyd yn oed mewn materion preifat ac yn eich meddyliau

Gwrandewch ar Jehofah mewn materion megis 'priodi yn yr Arglwydd' (1Cor 7:39)

Ef ŵyr orau, a rhaid i chi ddysgu ymddiried ynddo

Caiff y rhai sy'n ymddiried yn Jehofah lwyddiant, ffafr ddwyfol

Fe allai'r rhai sy'n 'dibynnu ar eu deall eu hun' ddisgyn ymaith a dioddef trychineb ysbrydol

Dylid osgoi doethineb dynol

'Ddylem ni ddim meddwl gormod ohonom ein hunain nag sydd rhaid (Rhuf 12:3)

'Ddylem ni ddim cael ein gwyrto gan syniadau personol, damcaniaethau

Dylem gael ein harwain gan drefniant cynulleidfaol Duw (Salm 22:22)

Y rheswm dros fodolaeth gymaint o grefyddau heddiw ydi fod pobl wedi mynnu dibynnu ar eu deall eu hun (Diar 14:12)

Ychydig sydd wedi ymgynghori â Gair Duw; gwell ganddynt eu barn eu hunain

'Ciliwch oddi wrth ddrwg,' a chewch gydwybod lân

Osgowch fod yn or-feirniadol, yn gweld bai o hyd ar frodyr neu ar y gynulleidfa

Gwnewch gynnydd mewn gwybodaeth gywir, ond heb ganiatáu i falchder, ofn, neu eiddgedd eich cymell chi

Mae i astudio Gair Duw a hefyd ei gymhwyso mewn lleferydd, meddwl, a gweithred ddylanwad ffafriol, mae'n

"feddyginiaeth i'th gorff"

ANRHYDEDDA JEHOFAH Â'R GORAU SYDD GENNYT, A DERBYN DDISGYBLAETH (Diar 3:9-12) (10 mun.)

Cefnogwch gyfundrefn Jehofah (*w85* 12/1 20-2)

Fel y daeth yr Israeliaid â'u gorau i Jehofah, felly y gwna Cristionogion heddiw

Cyfrannwch at eich Neuadd y Deyrnas; cynorthwywch bencadlys a changhennau'r Gymdeithas yn ogystal â'r gwaith cenhadu byd eang (*g89* 1/22 14-15; *w87* 12/15 19-20)

Defnyddiwch eich eiddo i gynorthwyo'r gwan a brodyr anghennus (*w84* 12/1 22)

Defnyddiwch nhw er lles eraill; 'fyddan' nhw o ddim budd i chi "yn nydd Dieter" (Diar 11:4; *w77* 201)

Cyfeirio mae "bydd dy ysguboriau'n orlawn" yn bennaf at gyfoeth ysbrydol a'r llawenydd a'r diogelwch a ddaw'r rhain (*it-2* 1038 ¶4)

Derbyniwch ddisgyblaeth Jehofah fel tystiolaeth o'i gariad tadol (*tp* 110)

Mae Jehofah yn dymuno inni fod yn ufudd iddo, gan fod hyn o'r budd mwyaf inni

Gall disgyblaeth fod yn boenus a tharo'n galed ond mae iddi agwedd gadarnhaol; gweinyddir hi ag amcan llesol mewn golwg

Byddwch yn ddiolchgar i'r mater gael ei ddwyn i'ch sylw chi, fod gan rywun ddigon o ddiddordeb ynoch chi i'ch cywiro

Gwell cael ein ceryddu'n gynnar wrth ddilyn llwybr anghywir na mynd ymlaen yn ddi-ymatal (Heb 12:5-7)

Peidiwch â digio pan ddaw disgyblaeth (Diar 4:13; 19:20)

Gall disgyblaeth ddod oddi wrth frawd aeddfed, oddi wrth riant

Gall ddod hyd yn oed o ddarllen y Beibl neu *The Watchtower*

Ystyriwch y cyfarwyddiadau nid yn gasgliad o reolau gormesol ond yn dystiolaeth o ddiddordeb cariadus Jehofah

Cydnabyddwch awdurdod cyfundrefn Jehofah i wneud newidiadau

Peidiwch ag ymadael â'r gwirionedd oherwydd rhyw gywiriad mewn dealltwriaeth

MAE GWERTH DOETHINEB DUWIOL YN FWY NAG ELW MATEROL (Diar 3:13-18) (7 mun.)

Mae doethineb yn dod â hapusrwydd, heddwch, a hyfrydwch (*w86* 6/15 6)

Mae'n rhoi inni'r gallu i weithredu mewn harmoni â bwriadau Duw

Gellir sicrhau'r wybodaeth angenrheidiol drwy astudio'r Beibl mewn ffordd ddidwyll a goleuedig

Mae i ddoethineb duwiol addewid bywyd, cyfoeth, a gogoniant

"Ffyrdd hyfryd yw ei ffyrdd" wrth i Jehofah roddi cyfoeth ei fendith i'r rhai sy'n ennill doethineb duwiol a deall

"Y mae'n bren bywyd i'r neb a gydia ynddi" yn yr ystyr fod y ddoethineb yn dylanwadu'n llesol ar ein bywyd presennol (*it-2* 250 ¶3)

Gall arbed llawer o ofid inni, gan gynnwys marw cyn amser

Er enghraifft, cymhwyswch egwyddorion yn ymwneud ag alcohol, cyffuriau, lliid

Er mwyn meddiannu doethineb a deall, rhaid rhoi gwybodaeth ar waith

Mae hyn yn golygu bod yn barod i gymhwyso'r hyn a ddysgwn

BYDD RHOI EIN HYDER YN JEHOFAH YN DOD Â BENDITHION (Diar 3:19-26) (9 mun.)

Sicrheir diogelwch ysbrydol (Salm 91:1-3)

Esmwythir ofn peryglon (Salm 91:5, 6)

Bydd cwsg yn felys

Mewn un ystyr mae cysgu'n braf yn wobr byw yn ddoeth

Ni fydd arnom ofn y gorthrymder sydd yn dod ar y drygionus

Wrth i Dystion Jehofah wynebu'r gorthrymder mawr, mae'r geiriau hyn yn eu calonogi: "Paid ag ofni"

'Dydym ni ddim yn disgwyl cael ein diogelu rhag pob niwed corfforol

Ni ddiogelwyd Jeremeia rhag pob ymosodiad corfforol (Jer 37:15, 21)

Merthyrwyd yr apostol Iago (Act 12:1, 2)

Bydd Jehofah yn ein diogelu fel *dosbarth* neu fel *cyfundrefn* (Salm 145:20; Mth 10:28)

Fe all unigolion ddiodef

Mae hyder gan bawb ohonom yn yr atgyfodiad (In 5:28, 29)

'Rydym yn hyderus na fydd Jehofah yn anghofio amdanom hyd yn oed yn angau

DILYNWCH Y LLWYBR HYDERUS HWN GYDA NERTH ODDI WRTH JEHOFAH (2 mun.)

Parhewch i roi eich hyder yn Jehofah

Dibynnwch ar addewidion Duw

Gwasanaethwch Jehofah mewn gostyngeiddrwydd a llawenydd

Darllen Diarhebion 2:20-22

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)